

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

25 Medi 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Harries, Mrs J James, y Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 11.45am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol gan Dr M Havard, a oedd wedi mynd i gwrs Cynefino Aelodau Parciau Cenedlaethol y DU, a'r Cynghorydd ML Evans.

2. Datgeliadau

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019 a 12 Mehefin 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019 a 12 Mehefin 2019

4. Adroddiad Cadwraeth 2018-19

Cyflwynodd y Swyddog Bioamrywiaeth drosolwg o waith cadwraeth yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19. Soniwyd bod hyn wedi'i wneud ar dros gant o safleoedd trwy reoli'r ystâd y mae'r Awdurdod yn berchen arno neu'n ei brydlesu, a hefyd o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth â pherchnogion tir preifat trwy'r cynllun 'Gwarchod y Parc'. Er y nodwyd y bu gostyngiad yn nifer y cytundebau rheoli newydd, roedd y darn o dir a reolir ar gyfer cadwraeth wedi'i gynnal. Soniwyd hefyd bod Swyddog Cadwraeth amser llawn newydd yn cael ei gyflogi o ddechrau mis Hydref, a'r gobaith oedd y byddai hyn, gydag amser, yn arwain at gynnydd cyson yn y tir a reolir ar gyfer cadwraeth.

Roedd yr Awdurdod hefyd yn rhan o nifer o brosiectau cydweithredol, gan gynnwys y Prosiect Pwyth mewn Pryd a oedd yn defnyddio dull dalgylch 'o'r brig i lawr' i leihau rhywogaethau estron goresgynnol. Derbyniwyd cyllid ychwanegol a fyddai'n caniatáu gwaith ar ddalgylch newydd yng Nghastellmartin dros y tair blynedd nesaf.

Yn olaf, dywedodd y Swyddog fod prosiect yn cael ei gynnal i 'lanhau'r' data helaeth ar frain coesgoch a gasglwyd dros nifer o flynyddoedd, ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i weithdy rhyngwladol; y gobaith



oedd y gellid cynnal dadansoddiad pellach o'r data yn y dyfodol. Gorffennodd trwy ddweud wrth yr Aelodau ei bod yn hapus i hwyluso ymweliad fel y gallem weld y gwaith ar lawr gwlad, a dosbarthodd gopiâu o ddwy daflen a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod o'r enw "The Green Roof Guide" a "Chloddiau Sir Benfro".

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad diddorol iawn, gofynnodd yr Aelodau a allai adroddiadau yn y dyfodol ddarparu golwg mwy strategol i gysylltu'n well â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a hefyd a ellid cynnwys y targedau y mesurwyd yn eu herbyn. Atebodd y Swyddog Bioamrywiaeth, lle roedd targedau'n bodoli, y gallent yn sicr gael eu cynnwys, ond roedd yn anodd gosod targedau rhifol weithiau gan fod y dulliau mesur yn fwy ansoddol eu natur. Ychwanegodd hefyd y byddai adran ar wahân yn canolbwyntio ar y gwaith morol yn cael ei chreu yn y dyfodol yn ôl pob tebyg, a chytunodd yr Aelodau y byddai hyn yn ddefnyddiol.

NODWYD

5. Adroddiad Archaeoleg Cymunedol 2018-19

Amlygodd yr adroddiad yr ystod amrywiol o waith a wnaeth yr Awdurdod ar draws amryw weithgareddau archaeolegol, a oedd yn cynnwys ymchwil archaeolegol yng Nghastell Nyfer a Chastell Henllys; prosiectau, fel Gwarcheidwaid Treftadaeth a oedd â'r nod o ymgysylltu â phlant ysgol; Heritagewatch, i godi ymwybyddiaeth o droseddau treftadaeth; a Ffermio'r Gorffennol, gan weithio gyda CFFl; gwaith diogelu henebion (ffensio a chlirio prysgwydd yn bennaf) a threfnu nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau, gan gynnwys y Diwrnod Archaeoleg poblogaidd. Dywedodd yr Archaeolegydd Cymunedol fod nifer gyfyngedig o leoedd ar gael am ddim i'r Aelodau i Ddiwrnod Archaeoleg 2019, ac y byddai'r manylion yn cael eu cylchredeg iddynt.

Esboniodd y swyddog, gan mai dim ond am ychydig fisoedd y bu yn y swydd, bod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu i raddau helaeth gan ei ragflaenydd. Fodd bynnag, yn y cyfarfod, rhoddodd gyflwyniad ar rywfaint o waith diweddar yr oedd wedi bod yn rhan ohono, gan gynnwys gwaith cloddio yng Nghapel Sant Padrig, Porth Mawr a Phorth y Rhaw, Caerfai. Roedd y gwaith gydag ysgolion (prosiect Gwarcheidwaid Treftadaeth) wedi cysylltu â'r prosiect cwricwlwm ar hedfan ac wedi canolbwyntio ar rai o olion y damweiniau awyren sydd i'w canfod yn y Preseli. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio hefyd lle gallai aelodau'r cyhoedd ddod ag unrhyw ddarganfyddiadau i'w hadnabod a'u cofnodi.

Llongyfarchodd yr aelodau yr Archaeolegydd Cymunedol am ei frwdfrydedd ac am yr hyn a gyflawnwyd. Gofynnwyd a ellid gwneud mwy o gysylltiadau â'r Cynllun Corfforaethol mewn adroddiadau yn y dyfodol. Atebodd y swyddog ei fod yn bwriadu gweithio gyda'r Cydlynnydd



Perfformiad a Chydymffurfiaeth i adolygu'r metrigau perfformiad a hefyd i baratoi strategaeth tair blynedd ar gyfer archaeoleg unwaith y byddai ganddo well gafael ar y gwaith sydd i'w wneud. Canmolodd yr aelodau hefyd y gwaith parhaus gyda'r gymuned ffermio a chanmolwyd Sir Benfro fel lleoliad ar gyfer grwpiau prifysgol, gan obeithio y gellid denu mwy yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn credu y gallai fod potensial ar gyfer archaeoleg forol.

NODWYD

6. Mabwysiadu Egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Soniwyd bod staff yr Awdurdod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi dechrau mabwysiadu egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr wrth asesu risg ar ystâd yr Awdurdod; datblygwyd yr egwyddorion hyn gan y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr (VSG), corff sy'n gweithio ledled y wlad. Yn 2017, comisiynwyd Strategaeth Diogelwch Ymwelwyr ac atodwyd drafft o'r ddogfen hon ar gyfer y Pwyllgor.

Yn dilyn cyngor a roddwyd gan y VSG, roedd yr Awdurdod wedi ymgorffori prif egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr ym mhob un o'r polisiau cyfredol perthnasol. Er mwyn ymgorffori'r egwyddorion hyn – a oedd yn ymdrin â diogelwch yn ymarferol – mewn asesiadau risg safle, datblygwyd Asesiad Risg Diogelwch Ymwelwyr newydd, a'i fwriad oedd creu asesiadau o'r fath ar gyfer y prif safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod.

Dyweddodd y Rheolwr Gweithrediadau fod staff yr Awdurdod yn aelodau gweithredol o VSG ac yn cymryd rhan mewn gweithdai rheolaidd gyda sefydliadau tebyg ledled y DU ac Iwerddon a oedd wedi gwella gwybodaeth ac arbenigedd staff wrth reoli Diogelwch Ymwelwyr.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad diddorol, cytunodd yr Aelodau â'r agwedd bragmataidd a gymerwyd, gan gredu bod yn rhaid amddiffyn lleoedd gwyllt rhag gormod o arwyddion a chelfi eraill, neu fe fyddai eu rhinweddau arbennig yn cael eu colli. Roeddent hefyd yn edrych ymlaen at ddarllen yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch blynyddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ond a gylchredwyd i Aelodau'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, a nodwyd ei bod yn bwysig dysgu gwersi o unrhyw ddamwain yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol, gan adlewyrchu natur gorfforaethol Iechyd a Diogelwch.

NODWYD.



7. **Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019**

Roedd yr adroddiad a roddwyd gan y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2019/20 gyda saith amcan llesiant ac adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth lywodraethu gyffredinol.

Yn yr adroddiad, roedd gwybodaeth am berfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2019 ac roedd yn cynnwys ystadegau chwarter 1 ar gyfer rhai setiau data. Nodwyd bod nifer o gamau gweithredu mewn ambr neu goch ac roedd y rhain yn ymwneud â meysydd lle nad oedd gwaith wedi cychwyn eto, swyddi a oedd yn wag neu lle roedd angen gwaith pellach i symud ymlaen â'r gweithgareddau. Rhagwelwyd y dylai'r gweithgareddau symud o goch ac oren i wyrdd wrth i gynnydd gael ei wneud trwy gydol y flwyddyn.

Amlygodd yr adroddiad nifer o feysydd gwaith gan gynnwys perfformiad cynllunio (nodwyd y dylai cyfeiriad anghywir at ystadegau chwarter 1 ar gyfer 2018/19 yn yr adran hon o'r adroddiad fod wedi darllen 2019/20 ac ar dudalen 76 yr adroddiad perfformiad, yn dilyn adolygiad o ddata, dylai nifer y diwrnodau gwirfoddoli mewn swyddfa a chanolfan ar gyfer chwarter 1 ddarllen 5.5 nid 0), sesiynau hyfforddi Parkwise, y prosiect Llwybrau Celtaidd, prosiect Ysgolion Awyr Agored, niferoedd ymwelwyr ar safleoedd yr Awdurdod a lefelau salwch ac lechyd a Diogelwch.

NODWYD

8. **Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod rhai camau wedi'u diwygio yn dilyn adolygiad gan y Timau Rheoli / Arweinyddiaeth ac ychwanegwyd risg ychwanegol at y gofrestr, sef methu ag adennill dyledion a oedd heb eu talu.

Cwestiynodd yr Aelodau'r camau lliniaru / rheoli / monitro ar gyfer Risg 6 (cyflawni targedau a osodwyd gan flaenoriaethau Gwerthfawr a Chydnerth Llywodraeth Cymru) ac atebodd y Prif Weithredwr fod angen rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn mesur y risg o fethu â chyrraedd y targedau. Fe wnaethant awgrymu hefyd y dylai rhan o'r gwaith o liniaru Risg 16 (capasiti / sgiliau staff ar gyfer gwaith allweddol) gynnwys iechyd a lles, oherwydd gallai salwch staff arwain at ddiffyg capasiti.

NODWYD

9. **Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

